# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn drosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol; ac i wneud newidiadau amrywiol i drefniadau trwyddedu syrcasau ac anifeiliaid gwyllt peryglus [7 Medi 2020]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol*

## 1 Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol

(1) Mae person sy'n weithredwr syrcas deithiol yn cyflawni trosedd os yw'r person yn defnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol yng Nghymru, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny.

(2) At ddiben yr adran hon, mae anifail gwyllt yn cael ei ddefnyddio os yw'r anifail—

(a) yn perfformio, neu

(b) yn cael ei arddangos.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 2 Ystyr "gweithredwr"

Yn y Ddeddf hon, ystyr "gweithredwr" yw—

(a) perchennog y syrcas deithiol,

(b) person ac eithrio'r perchennog sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol, neu

(c) os nad yw'r naill na'r llall o'r personau a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 3 Ystyr "anifail gwyllt"

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "anifail gwyllt" yw anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig.

(2) Er gwaethaf is-adran (1), caiff rheoliadau bennu at ddibenion y Ddeddf hon—

(a) math o anifail sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt;

(b) math o anifail nad yw i'w ystyried yn anifail gwyllt.

(3) Yn y Ddeddf hon, mae i "anifail" yr un ystyr ag a roddir i "animal" gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45) (gweler adran 1).

(4) Yn is-adran (1), ystyr yr "Ynysoedd Prydeinig" yw'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 4 Ystyr "syrcas deithiol"

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant yn y mannau hynny.

(2) Mae "syrcas deithiol" yn cynnwys syrcas sy'n teithio fel a grybwyllir yn is-adran (1) at y diben a grybwyllir yno, er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio o un man i fan arall.

(3) Er gwaethaf is-adran (1), caiff rheoliadau bennu at ddibenion y Ddeddf hon—

(a) math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol;

(b) math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 4 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Gorfodi*

## 5 Pwerau gorfodi

Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau gorfodi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 5 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Troseddau gan gyrff corfforedig etc.*

## 6 Troseddau gan gyrff corfforedig etc.

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni gan—

(a) corff corfforedig;

(b) partneriaeth;

(c) cymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth.

(2) Mae person a grybwyllir yn is-adran (3) yn cyflawni'r drosedd hefyd os profir bod y drosedd—

(a) wedi ei chyflawni gan y person hwnnw, neu gyda'i gydsyniad neu ymoddefiad, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y person hwnnw.

(3) Y personau yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall y corff corfforedig;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner yn y bartneriaeth;

(c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, unrhyw swyddog i'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu.

(4) Yn is-adran (3)(a), ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau yw aelod o'r corff corfforedig.

(5) Yn y Ddeddf hon, ystyr "partneriaeth" yw—

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaethau 1890 (p. 39), neu

(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p. 24).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 6 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 7 Achosion: troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

(1) Mae achos am drosedd o dan adran 1 yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth i gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid).

(2) Mae achos am drosedd o dan adran 1 yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth i gael ei ddwyn yn enw'r gymdeithas (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'i haelodau).

(3) Mae rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn gorff corfforedig.

(4) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925 (p. 86) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 7 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau*

**8 Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau**

(1) Hepgorer adran 5(2) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (p. 38) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Mewn Syrcasau 2019 (p. 24)).

(2) Yn adran 1(2) o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 (p. 37), ar ôl "(as so defined)" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd mewnosoder "in England".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 8 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Cymhwyso i'r Goron*

**9 Pŵer yr Uchel Lys i ddatgan bod gweithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon**

Caiff yr Uchel Lys ddatgan bod unrhyw weithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon pe byddai'r Goron yn atebol amdani o ran cyfraith trosedd o dan y Ddeddf hon oni bai am adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) (nid yw Deddfau'r Cynulliad yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 9 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**10 Tir y Goron: pwerau mynediad**

(1) Ni chaniateir arfer y pwerau a roddir gan yr Atodlen (pwerau mynediad etc.) mewn perthynas â thir y Goron ond gyda chydsyniad yr awdurdod priodol.

(2) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "tir y Goron" yw tir y mae buddiant ynddo—

(i) yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl y Goron neu yn hawl Ei hystad breifat,

(ii) yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn,

(iii) yn perthyn i Ddugiaeth Cernyw, neu

(iv) yn perthyn i un o adrannau'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r llywodraeth;

(b) ystyr "awdurdod priodol"—

(i) os yw'r tir yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl y Goron, yw Comisiynwyr Ystad y Goron neu un o adrannau eraill y llywodraeth sy'n rheoli'r tir o dan sylw;

(ii) os yw'r tir yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, yw Canghellor y Ddugiaeth;

(iii) os yw'r tir yn perthyn i Ddugiaeth Cernyw, yw'r person hwnnw y mae Dug Cernyw, neu'r person sy'n meddu ar Ddugiaeth Cernyw am y tro, yn ei benodi;

(iv) os yw'r tir yn perthyn i un o adrannau'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r llywodraeth, yw'r adran honno.

(3) Os oes unrhyw gwestiwn yn codi o dan yr adran hon ynghylch pa awdurdod yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw dir, mae'r cwestiwn hwnnw i gael ei gyfeirio at y Trysorlys, a'r Trysorlys biau'r penderfyniad terfynol.

(4) Yn yr adran hon, mae'r cyfeiriad at ystadau preifat Ei Mawrhydi i'w ddehongli yn unol ag adran 1 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862 (p. 37).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 10 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Cyffredinol*

## 11 Rheoliadau

(1) Mae Rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol, a

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 11 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 12 Dod i rym

Daw'r Ddeddf hon i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 12 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 13 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** A. 13 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

## YR ATODLEN

(a gyflwynir gan adran 5)

### PWERAU GORFODI

*Dehongli*

1 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir yn arolygydd at ddibenion y Ddeddf hon gan—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu

(b) Gweinidogion Cymru.

mae "mangreoedd" ("*premises*") yn cynnwys—

(a) tir, a

(b) unrhyw fan, gan gynnwys yn benodol—

(i) cerbyd, a

(ii) pabell neu strwythur symudol;

ystyr "pŵer mynediad" ("*power of entry*") yw pŵer mynediad a roddir i arolygydd gan—

(a) paragraff 2 (pŵer i fynd i fangreoedd ac eithrio anheddau), neu

(b) gwarant o dan baragraff 3 (gwarant i fynd i annedd).

(2) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at feddiannydd mangre mewn perthynas â cherbyd yn gyfeiriadau at y person yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am y cerbyd; ac mae "heb ei meddiannu" i'w ddehongli yn unol â hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. para. 1 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Pŵer i fynd i fangreoedd ac eithrio anheddau*

2 (1) Caiff arolygydd fynd i unrhyw fangre os oes gan yr arolygydd seiliau rhesymol dros amau—

(a) bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni yn y fangre, neu

(b) y gall tystiolaeth bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni gael ei chanfod yn y fangre.

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. para. 2 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Gwarant i fynd i annedd*

3 (1) Ni chaniateir i arolygydd fynd i unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd oni bai—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

(a) bod meddiannydd y fangre neu berson arall yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre yn rhoi cydsyniad, neu
(b) bod ynad heddwch wedi dyroddi, ar gais gan arolygydd, gwarant sy'n awdurdodi'r arolygydd i fynd i'r fangre.

(2) Caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a dyngir ar lw—
(a) bod seiliau rhesymol dros amau—
(i) bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni yn y fangre, neu
(ii) y gall tystiolaeth bod trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni, wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni gael ei chanfod yn y fangre; a
(b) bod unrhyw un neu ragor o amodau 1, 2, 3 neu 4 wedi eu bodloni.

(3) Amod 1 yw—
(a) bod gofyn am fynd i'r fangre wedi cael ei wrthod neu'n debygol o gael ei wrthod, a
(b) bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i feddiannydd y fangre neu i berson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre.

(4) Amod 2 yw y gallai gofyn am fynd i'r fangre neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan y paragraff hwn drechu diben mynd i'r fangre.

(5) Amod 3 yw bod y fangre heb ei meddiannu.

(6) Amod 4 yw—
(a) bod meddiannydd y fangre yn absennol dros dro, a
(b) y gallai aros i'r meddiannydd ddychwelyd drechu diben mynd i'r fangre.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I16** Atod. para. 3 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

4 Mae gwarant a ddyroddir o dan baragraff 3—
(a) yn awdurdodi mynd i'r fangre ar un achlysur;
(b) yn gorfod cael ei gweithredu o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y'i dyroddir.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** Atod. para. 4 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I16** Atod. para. 3 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**
**I17** Atod. para. 4 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

*Mynd i fangre*

5 (1) Rhaid i arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad, os gofynnir iddo gan berson yn y fangre—

(a) dangos tystiolaeth o fanylion adnabod yr arolygydd, a

(b) amlinellu at ba ddiben yr arferir y pŵer.

(2) Pan fo arolygydd yn mynd i fangre o dan warant a ddyroddir o dan baragraff 3, rhaid i'r arolygydd hefyd—

(a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos copi o'r warant, a

(b) os gofynnir iddo gan y meddiannydd neu berson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre, roi copi o'r warant i'r person hwnnw.

(3) Os nad yw'r meddiannydd na pherson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre yn bresennol—

(a) rhaid i'r arolygydd adael copi o'r warant mewn man amlwg yn y fangre, a

(b) wrth adael y fangre, rhaid i'r arolygydd ei gadael wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth yr arolygydd iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. para. 5 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

6 Rhaid i arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad wneud hynny ar adeg resymol oni bai yr ymddengys i'r arolygydd y byddai mynd i'r fangre ar adeg resymol yn llesteirio diben mynd i'r fangre.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. para. 6 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

7 Caiff arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad ddefnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre os yw'n angenrheidiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. para. 7 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

8 Caiff arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad—

(a) mynd ag unrhyw bersonau eraill i'r fangre gydag ef yr ymddengys i'r arolygydd ei bod yn briodol mynd â hwy, a

(b) mynd ag unrhyw gyfarpar a deunyddiau i'r fangre gydag ef yr ymddengys i'r arolygydd eu bod yn briodol mynd â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. para. 8 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. para. 5 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**
**I19** Atod. para. 6 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**
**I20** Atod. para. 7 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**
**I21** Atod. para. 8 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Pwerau arolygu etc.*

9 Caiff arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad—

(a) chwilio'r fangre;
(b) archwilio, mesur neu brofi unrhyw beth a ganfyddir yn y fangre, gan gynnwys anifail;
(c) holi unrhyw berson yn y fangre;
(d) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre roi unrhyw gymorth i'r arolygydd sy'n rhesymol ofynnol ganddo;
(e) cymryd sampl, gan gynnwys cymryd sampl o anifail;
(f) marcio anifail a ganfyddir yn y fangre at ddibenion adnabod;
(g) tynnu ffotograff o unrhyw beth a ganfyddir yn y fangre, neu ei recordio ar ffurf fideo, gan gynnwys anifail;
(h) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre gyflwyno unrhyw ddogfen neu gofnod ar ba ffurf bynnag y'i cedwir sydd ym meddiant y person neu o dan ei reolaeth;
(i) cymryd copïau o unrhyw ddogfen neu gofnod a ganfyddir yn y fangre ar ba ffurf bynnag y'i cedwir, neu gymryd darnau o'r ddogfen neu'r cofnod;
(j) ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth sy'n cael ei storio ar ffurf electronig ac sy'n hygyrch o'r fangre gael ei chyflwyno ar ffurf y gellir mynd ymaith â hi ac ar ffurf weladwy a darllenadwy, neu ar ffurf y gellir cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf weladwy a darllenadwy yn rhwydd ohoni;
(k) ymafael yn unrhyw eitem, ac eithrio anifail, a ganfyddir yn y fangre ac y mae'r arolygydd yn credu yn rhesymol ei bod yn dystiolaeth o gyflawni trosedd o dan adran 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. para. 9 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

10 Caiff person yr eir ag ef i'r fangre o dan baragraff 8(a) arfer unrhyw bŵer a roddir i arolygydd gan baragraff 9 os yw'r person o dan oruchwyliaeth yr arolygydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. para. 10 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. para. 9 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**
**I23** Atod. para. 10 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Pŵer ymafael: atodol*

11 (1) Caniateir cadw unrhyw eitem yr ymafaelir ynddi o dan baragraff 9(k) am gyhyd ag y bo angen.

(2) Rhaid i berson sy'n ymafael yn unrhyw beth o dan baragraff 9(k)—

(a) cadw cofnod o'r eitem yr ymafaelwyd ynddi, a

(b) darparu cofnod o'r eitem yr ymafaelwyd ynddi os gofynnir iddo wneud hynny gan berson a oedd yn meddiannu'r fangre ar yr adeg yr ymafaelwyd yn yr eitem, neu a oedd â'r eitem yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth yn union cyn yr ymafaelwyd ynddi.

(3) Nid yw paragraff 9(k) yn cynnwys pŵer i ymafael yn unrhyw eitem y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol yn ei chylch mewn achosion cyfreithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. para. 11 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Rhwystro etc.*

12 (1) Mae person yn cyflawni trosedd—

(a) os yw'r person heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio â gofyniad am gymorth a wnaed yn rhesymol o dan baragraff 9(d);

(b) os yw'r person yn rhwystro yn fwriadol berson arall wrth iddo arfer swyddogaeth o dan yr Atodlen hon.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. para. 12 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

*Atebolrwydd arolygwyr*

13 (1) Nid yw arolygydd yn atebol mewn unrhyw achosion sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir wrth honni cyflawni swyddogaethau'r arolygydd o dan yr Atodlen hon os yw'r llys wedi ei fodloni y cyflawnwyd y weithred yn ddidwyll a bod seiliau rhesymol dros ei chyflawni.

(2) Mae is-baragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson y mae arolygydd yn mynd ag ef i fangre o dan baragraff 8(a) fel y mae'n gymwys i arolygydd os yw'r person o dan oruchwyliaeth yr arolygydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Atod. para. 13 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020.